# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| Teitl y cyfarfod: | Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – Cyfarfod 75 |
| Dyddiad y cyfarfod: | 6 Gorffennaf 2023 |
| Amser y cyfarfod: | 10:00-13:00 |
| Yn bresennol:<br><br>(O = Ar-lein<br><br>*= yn dirprwyo ar gyfer cynrychiolydd a enwir) | **Aelodau ac Arsylwyr Swyddogol:** Geraint Davies (Cadeirydd CNC), Ian Doyle (O) (Angling Trust), Helen Donnan, BHS, David Morgan (O) Glandŵr Cymru, Claire Wright * CLA, Phil Stone (Canŵio Cymru), Gwyn Teague* (WROWMWG), Rachel Evans (CA), Gwenda Owen (Cycling UK), James Nevitt (Defence Estates), Paula Brunt (O) (Disabled Ramblers), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Dr Nick Fenwick (FUW), Ruth Rourke (IPROW), Dave Waterman (O) (LARA), Hedd Pugh* (NFU), Jonathan Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru), Beverley Penney (OSS), Matthew Williams (WSA Outdoor Pursuits Group), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Paul Renfro (WATO), Peter Rutherford (WNPA), Simon Pickering (LIC), Sarah Smith (LIC), Rosie Plummer (CNC), Ruth Jenkins (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth CNC)<br><br>**Cyflwynwyr a gwesteion:** Dr Emma Edwards-Jones (Snowdonia Active), Alison Roberts (CNC), Dave Ashford (LIC), Dawn Thompson (CNC), Anna Jones (Tirweddau Dynodedig Cymru) |
| Ymddiheuriadau: | Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd, Chris Mills, Afonydd Cymru, Dr John O'Connor, Angling Cymru, Eben Muse (BMC), Charles De Winton, CLA, Adrian Walls (WROWMWG), Jen Newman (Dŵr Cymru), Ian Mabberley a Tony Rooney (WLAFs), Rachel Lewis-Davies (NFU), Steve Williams ac Emma Henwood (Chwaraeon Cymru), Fiona Clay-Poole (CLILC), Anthony Richards (WNPA), Emma Robinson (YHA) |
| Arsylwyr: | Mark Weston (BHS), Kieron Foster (Cycling UK), Michael Benjamin (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Caerffili), Eifion Jones (Cyngor Ceredigion), Peter White (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion), y Cynghorydd Jill Kibble (Fforwm Mynediad Lleol Powys), Sioned Jones (CNC), Stephen Jenkinson (Kennel Club), Gruff Owen (CNC), Quentin Grimley (CNC), Rachel Parry (CNC), Chris Heaps (CNC), Michael Smith (CNC), Ash Pearce (CNC), Lewis Hillier (CNC), Dave Maccallum (CNC) |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, y rhai a oedd yn yr ystafell a'r rhai a oedd yn ymuno ar-lein.

## 2. Y Cod Cefn Gwlad a strategaeth hyrwyddo a chynllun gweithredu'r Cod Cefn Gwlad

Cyflwynodd Alison Roberts, y Cynghorydd Arbenigol ar Weithgareddau Hamdden Cyfrifol, CNC, waith ar y Cod Cefn Gwlad a Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Cod Cefn Gwlad newydd i Gymru.

Mae gan CNC ddyletswydd statudol i baratoi a chyhoeddi cod ymddygiad a gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r Cod Cefn Gwlad ledled Cymru a Lloegr. Y weledigaeth barhaus yw bod gan y Cod Cefn Gwlad y cydbwysedd cywir rhwng annog mynediad a hysbysu pobl o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn yr awyr agored.

Bydd CNC yn parhau i weithio ochr yn ochr â Natural England (NE) i gyflawni camau gweithredu allweddol a rennir ar lefel drawsffiniol Cymru/Lloegr ac i weithredu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid y strategaeth ar gyfer Cymru a'r camau gweithredu cysylltiedig.

Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid yn 2022/23 i CNC ymgymryd â gwaith anneddfwriaethol mewn perthynas â gweithgareddau hamdden cyfrifol. Rhannodd Alison fideos gyda'r cyfarfod o'r cynnwys newydd a throsolwg o bob maes gwaith:

**Gwaith Mewnweledial Ymddygiadol (BI):** Parhau â'r gwaith Diwygio Mynediad ynghylch Cŵn ar Dennyn. Roedd hyn yn defnyddio BI i nodi sut y gellid gweithredu negeseuon ar gyfer rheoli cŵn yn well yng nghefn gwlad o gwmpas da byw. Bydd gweminar yn cael ei sefydlu i fynd drwy'r adolygiad hwn gyda phartneriaid.

**Canllawiau brandio:** wedi'u hadolygu ac mae canllawiau newydd i CNC/NE a phartneriaid eu dilyn wrth ddefnyddio logo'r Cod Cefn Gwlad.

**Cynnwys y cyfryngau:** comisiynwyd asiantaeth greadigol i wneud ffilmiau Cod Cefn Gwlad ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar gerdded cyfrifol gyda chŵn a pharatoi ymlaen llaw - mae'r rhain wedi'u brandio gyda'r Cod Cefn Gwlad yn hytrach na CNC er mwyn galluogi partneriaid i rannu'n haws. Comisiynwyd taflen Cod Cefn Gwlad gyffredinol hefyd i roi sylw i brif bwyntiau'r Cod. Mae pecyn cymorth ar gael i bartneriaid ei lawrlwytho i helpu i hyrwyddo'r cod; gan gynnwys fideos, delweddau a phynciau penodol.

**Gweithgaredd hyrwyddo:**

- Gwefan newydd y Cod Cefn Gwlad – mewn partneriaeth â NE, mae gwefan annibynnol ar gyfer y Cod; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am hyrwyddwyr y cod sy'n hyrwyddo ac yn rhannu'r cod yn ehangach. Mae CNC wedi gwneud rhywfaint o waith hyrwyddo ond mae angen gwneud mwy i ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd cywir.

- Ymgyrch Cod Cefn Gwlad Shaun the Sheep: cafodd ei lansio ddiwedd mis Mai. Mae hyn yn cael ei arwain gan NE gyda mewnbwn a chymorth gan CNC. Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae adnoddau addysgu hefyd yn cael eu datblygu. Mae angen i ymholiadau ar lawrlwytho gael eu gwneud i dîm Cod Cefn Gwlad NE (drwy Alison Roberts). Bydd CNC yn cynnwys Shaun the Sheep yn ei hyrwyddiadau dros y flwyddyn i ddod.

**Strategaeth cod cefn gwlad a chynllun gweithredu hyrwyddo**

Gan gydnabod yr angen i ymgysylltu'n well â chynulleidfaoedd, rhanddeiliaid a phartneriaid, comisiynodd CNC Snowdonia Active i ddatblygu cynllun hyrwyddo strategol a chynllun gweithredu, ac esboniodd Alison fwriadau'r gwaith hwn.

Rhannodd Dr Emma Edwards-Jones, Snowdonia Active, y gwaith a wnaed ar gyfer CNC. Y nod oedd edrych ar sut i wella'r modd y darperir gwybodaeth yr ymgyrchoedd ar gyfer hyrwyddo'r cod er mwyn annog ymddygiadau hamdden cyfrifol.

Roedd angen cofio mai newid ymddygiad yw'r rheswm dros hyrwyddo'r cod, felly mae'n rhaid gwneud pethau mewn ffyrdd sy'n arwain at newid ymddygiad. Roedd angen bod yn realistig, ystyried yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, nodi cyfleoedd allweddol i wella'r ffyrdd presennol o weithio ac edrych ar ffyrdd y gellid datblygu gwaith er mwyn sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Gwnaed gwaith arolygu i edrych ar gynefindra â'r cod; mae 13 pwynt i'w cyfleu yn y cod presennol (diwygiwyd yn 2021). Nododd Emma y gall fod yn demtasiwn wrth edrych ar ymgyrchoedd i barhau i ychwanegu pethau - nododd bod angen bod yn wyliadwrus o hyn oherwydd mwya'n byd rydych chi'n ei ychwanegu, yr anoddaf yw hi i hyrwyddo. Mae'r cod ei hun yn reit anhylaw; mae hyd yn oed fersiwn fer y cod yn cynnwys llawer i'w gyfleu ar unwaith - felly mae angen edrych ar ei ddefnyddio'n fwy effeithiol.  Nododd Emma fod yna God Cefn Gwlad ar gyfer ymwelwyr, ond hefyd God Cefn Gwlad ar gyfer tirfeddianwyr. Hyd yma, mae'r rhain wedi'u darparu ar wahân ac roedd yn gweld budd o gysoni'r rhain yn agosach, fel bod partneriaeth rhwng y rhai sy'n defnyddio'r tir a'r tirfeddianwyr ac ymrwymiad ar y cyd i ofalu am yr amgylchedd a chefn gwlad.

Wrth adolygu tarddiad y cod cefn gwlad, nododd Emma ei fod wedi'i wreiddio mewn cymdeithas wedi'r rhyfel a oedd wedi arfer derbyn a chadw at negeseuon gwybodaeth gyhoeddus awdurdodol, ar adeg pan oedd llai o sianeli teledu a phapurau newydd a oedd yn gwneud pethau'n symlach. Cafodd y Cod Cefn Gwlad ei hyrwyddo drwy wybodaeth gyffredinol gyhoeddus prif ffrwd ac nid drwy sefydliadau awyr agored arbenigol. Roedd yna hefyd niferoedd cymharol is o bobl yn cymryd rhan mewn hamdden awyr agored.

Dywedodd Emma fod gennym ni gymdeithas fwy rhyddfrydol erbyn hyn, sy'n llai tueddol o gydymffurfio â chod ymddygiad. Mae cyfathrebu'n fwy cymhleth erbyn hyn, gyda llawer mwy o sianeli, a chlebran a chamwybodaeth y mae angen gwrthweithio yn eu herbyn. Mae yna hefyd nifer sylweddol uwch o bobl yn cymryd rhan mewn hamdden awyr agored.

Rhannodd Emma y ffilm Cod Cefn Gwlad ddiweddaraf gan NE a CNC, gan nodi fod y dull hyrwyddo wedi newid. Wrth fyfyrio ar hyn, awgrymodd Emma, er mwyn cyrraedd pobl sy'n ymddwyn yn anghyfrifol, fod angen rhywbeth ynddo iddyn nhw, nid dim ond negeseuon y Cod h.y. mae angen iddyn nhw gael eu diddanu yn gyntaf, ond gyda'r negeseuon ar gefn hynny. Mae yna le ar gyfer ffilmiau fel hyn ond mae angen ymgysylltu'n greadigol â chynulleidfaoedd allweddol - roedd hi wrth ei bodd yn gweld Shaun the Sheep yn dychwelyd.

Amlinellodd Emma y gwaith a wnaed i lywio'r strategaeth a oedd yn cynnwys lefel sylweddol o ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys estyn allan at grwpiau nad ydynt yn cymryd rhan yn draddodiadol, ynghyd ag adolygiad o wybodaeth a thystiolaeth. Rhannodd Emma y pwyntiau allweddol o'r canfyddiadau hyn a nodi'r meddylfryd y tu ôl i'r weledigaeth ar gyfer y Strategaeth Hyrwyddo a'r Cynllun Gweithredu.

Mae'r cod yn bwysig ar gyfer cynnal dealltwriaeth sylfaenol o fewn y boblogaeth gyffredinol, ond mae hefyd angen ymateb i newidiadau a bod yn fwy hyblyg a chynnil o ran sut mae'r cod yn cael ei ddefnyddio. Mae hyrwyddo'r cod yn gofyn am ddull cydweithredol, er mwyn sicrhau lefel uchel o weledEdd.

Gorffennodd Emma drwy rannu manylion am y meysydd mae'r strategaeth yn eu nodi:

- y cynulleidfaoedd (cynulleidfa darged a'r boblogaeth gyffredinol)
- negeseuon (angen eu had-drefnu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'u byrhau, parchu/amddiffyn/mwynhau, gwella eglurder cyfathrebu diffiniadau PROW)
- adnoddau (gwneud un peth mawr yn dda, pecyn cymorth a pharhau i hyrwyddo), a
- gweithio mewn partneriaeth i gyflawni (y cynnig yw cael rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid Cod Cefn Gwlad, ymdrech gydgysylltiedig i hyrwyddo themâu, partneriaid i gydweithio)

Nododd Jont Bulbeck, Arweinydd y Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored, fod aelodau'r Fforwm wedi bod yn gefnogol i negeseuon yn y maes hwn ac mewn gwaith diwygio mynediad. Mae CNC wedi mabwysiadu'r Strategaeth Hyrwyddo ac, er bod gwaith da yn digwydd, mae problemau a heriau hefyd. Rhannodd Jont ddiagram yn nodi sut y gallai rolau gwahanol mewn sefydliadau weithio, a gwahoddodd aelodau i'w hystyried.

Er bod gan CNC rôl arweiniol, mae cwestiynau i aelodau'r Fforwm, yn enwedig o ran sut y gall sefydliadau gydweithio'n well. Mae yna feysydd gwaith y mae angen eu cyflawni ar y cyd.

Y ffordd mae CNC yn rhagweld gweithio yn y dyfodol i ddatblygu a hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad fyddai arwain y gwaith gyda grŵp craidd sefydlog o sefydliadau sy'n fwy cydweithredol o ran datblygu gwaith, a hefyd bod â grŵp ehangach o sefydliadau a fyddai’n hoffi defnyddio deunyddiau ond nad ydynt o reidrwydd am fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu deunyddiau. Gwahoddodd Jont aelodau i ystyried y dull hwnnw a gwneud sylwadau arno.

**Pwyntiau trafod:**

- Cafwyd sylw ei fod yn teimlo fel bod diffyg gweithgarwch gan y Llywodraeth i addysgu pobl ar y cod Cefn Gwlad dros y 30 mlynedd diwethaf. Teimlwyd bod angen defnyddio darllediadau gwybodaeth gyhoeddus yn hytrach na dibynnu ar hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan sefydliadau unigol, ac mae angen ymgysylltu â'r rhai sy'n gyfrifol am y cwricwlwm addysg; o ystyried datganoli, mae cyfle i Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol.
- Ymatebodd Jont fod y strategaeth yn nodi gwell ymgysylltiad o fewn y sector addysg a bod arbenigwyr addysg CNC yn rhan o hynny. Bydd cyfleoedd i gyfathrebu ag ysgolion a sectorau addysg anffurfiol yn cael eu hystyried a'u dilyn. Gofynnodd i bobl ystyried sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd ar hyn?
- Awgrymir bod cyfle i weithio gyda sefydliadau sy'n denu grwpiau i gefn gwlad e.e. gwobr Dug Caeredin a oedd yn arbennig o dda am ddod â phobl ifanc allan o ardaloedd trefol.
- Nodwyd bod dau fideo ar gyfer y Cod Cerdded Cŵn, a bod y fersiwn hirach yn cynnwys rhyddhau cŵn os yw'r perchennog yn teimlo dan fygythiad gan dda byw.
- Croesawodd Jonathan Hughes, NT Cymru, y gwaith hwn ac roedd yn falch iawn o weld gwefan annibynnol a bod y Cod yn cael ei ddefnyddio fel un pwynt cyfeirio. Awgrymwyd mai'r unig ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chael digon o gefnogaeth yw drwy gydweithio; mae NT yn hapus i weithio gyda CNC mewn dull cydweithredol.
- Mae'n bwysig estyn allan at unigolion a grwpiau eraill i ledaenu'r neges, awgrymwyd bod angen i ymdrech gael ei gwneud ar draws gwahanol adrannau'r llywodraeth - i mewn i'r sectorau cymdeithasol a thai.
- Nododd Jont fod cynhwysiant yn fater allweddol a nodwyd o ran cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir, yn ogystal ag edrych ar amrywiaeth y cynrychiolwyr sy'n cefnogi'r gwaith hwn.
- Byddai enghreifftiau o arfer da o waith cydweithredol yn cael eu defnyddio. Tynnodd yr aelodau sylw at ymgyrch Leave no Trace Seland Newydd Leave No Trace New Zealand | Promote and inspire responsible outdoor recreation
- Awgrymwyd bod angen deall pa mor bell o negeseuon y Cod yw ymddygiad y cyhoedd ar hyn o bryd.

## 3. Diweddariad Llywodraeth Cymru ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Cafwyd cyflwyniad gan Dave Ashford, Rheolwr Ymgysylltu o'r tîm Diwygio Rheoli Tir yn Llywodraeth Cymru. Mae ei dîm ehangach yn gyfrifol am ddatblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ym mis Medi ac, wythnos diwethaf, pasiodd y cam pleidleisio a chraffu olaf yn y Senedd. Mae'r Bil wedi'i seilio ar bedwar amcan rheoli tir yn gynaliadwy (SLM), ac mae un ohonynt yn cynnwys mynediad cyhoeddus yn benodol. Bydd y pedwar amcan SLM yn cael eu defnyddio fel sail i gymorth amaethyddol i'r dyfodol. Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd ddeddfwriaethol i ystyried pob un o'r pedwar amcan

gyda'i gilydd wrth ddatblygu cymorth. Nid yw'r amcanion SLM yn hierarchaidd ond mae ganddynt bwysoliad cyfartal.  Nododd Dave y camau nesaf i'r Bil Amaethyddol ddod yn Ddeddf Amaethyddol Cymru unwaith y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol - bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth.

Y prif gymorth newydd y bydd y Bil yn ei alluogi fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; nododd Dave nad oedd ganddo lawer o ddiweddariad gan fod materion rhwng ymgynghoriadau ar hyn o bryd. Cafodd cynigion amlinellol eu cyhoeddi yr haf diwethaf a defnyddiwyd y rhain wedyn fel sail i'r cam cyd-ddylunio a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ffermwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi treulio'r misoedd diwethaf yn ystyried y canlyniadau o'r cyd-ddylunio hyd yma. Byddai'r Gweinidog Materion Gwledig yn cyhoeddi datganiad ac adroddiadau ar gyd-ddylunio yn fuan; ni fyddai hyn yn cynnwys penderfyniadau nac ymrwymiad cadarn ond, yn hytrach, ganlyniad gweithgarwch cyd-ddylunio ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r rheini.

Bydd swyddogion yn defnyddio canlyniadau i gyfuno â datblygu polisi. Nododd Dave fod y cynigion amlinellol yr haf diwethaf yn rhai lefel uchel yn fwriadol, gan fod Llywodraeth Cymru eisiau ymgysylltu â ffermwyr mewn ffyrdd y gallent gyfrannu eu syniadau a'u profiad. Roedd Llywodraeth Cymru yn falch bod cymaint wedi cymryd rhan yn y broses honno.

Crynhodd Dave y camau nesaf gan fod disgwyl y Datganiad gan y Gweinidog yn fuan (*nodyn ers y cyfarfod, mae'r datganiad hwn ar gael yma:* [Datganiad Llafar: Ymateb y Llywodraeth i ail gam cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (11 Gorffennaf 2023) | LLYW.CYMRU)]

Roedd disgwyl i'r cam ymgynghori nesaf gael ei gynnal tua diwedd y flwyddyn; yn dilyn hyn, roedd disgwyl i fanylion terfynol y cynllun gael eu cyhoeddi yn 2024 ac yna i ffermwyr allu ymuno â'r cynllun ei hun ddechrau 2025.

**Pwyntiau trafod:**

- Roedd y cynigion ar gyfer cynllun tair haen, bydd camau gweithredu cyffredinol yn berthnasol i'r rhan fwyaf o ffermydd, yna byddai cyfres o gamau gweithredu dewisol a chamau cydweithredol. Cadarnhaodd Dave nad oes unrhyw gamau cyffredinol gorfodol ar gyfer mynediad, ond cynigir nifer o gamau dewisol. Bydd y wybodaeth o'r cyd-ddylunio yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r ymgynghoriad nesaf ymhellach. Mae gan elfennau cydweithredol lai o baramedrau, ac mae'n glir bod mynediad yn addas ar gyfer camau cydweithredol.
- Pryder ynghylch rhedeg allan o amser i ddatblygu'r haen gydweithredol a, heb unrhyw drawsgydymffurfio ar gyfer mynediad a chyda chamau gweithredu dewisol yn unig, na fydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau mynediad yng Nghymru.
- O ran treialu'r elfen gydweithredol, mae profiadau eisoes o elfennau cydweithredol ac mae gwaith eisoes ar y gweill. Cynlluniau adnoddau naturiol integredig (INRS), mae nifer o wersi i'w dysgu.
- Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn mynd drwy'r Senedd, mae'r Cynllun wrthi'n cael ei ddatblygu ond, yn y pen draw, mae'r arian yn dod gan Lywodraeth y DU ac mae

Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar gyllideb gan Lywodraeth y DU. O ran trawsgydymffurfio a rheoliadau, mae hi bob amser wedi bod yn glir bod rhaid i'r SFS fod uwchben rheoleiddio, ni ellir talu ffermwyr i gydymffurfio â rheoleiddio, mae PROW o fewn haen reoleiddiol ac mae angen darn mawr o waith i ystyried cydymffurfiaeth â rheoliadau fel rhan o reoli cymhwysedd y cynllun.

- O ran blaenoriaeth ar gyfer mynediad i'r cyhoedd, rhestrodd cynigion mynediad cyhoeddus y 10 canlyniad SLM - gwell mynediad ac ymgysylltiad yw un o'r pethau yr oedd am ei gyflawni ac mae wedi'i restru'n benodol ar y Bil ei hun - yr her yw rhoi hynny ar waith, ond mae yno.
- Ers ymgynghoriad 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir bod angen cysylltu taliadau yn y dyfodol â chamau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae canfyddiad bod taliadau i ffermwyr yn diflannu, felly mae'n rhaid iddynt gysylltu a dangos pa daliadau y byddant yn eu gwneud. Nid yw graddfeydd y cyllideb yn hysbys ar hyn o bryd, a bydd hwnnw'n fater i Weinidogion.
- Gyda Llywodraeth Cymru yn rhestru mynediad cyhoeddus fel un o'r pethau i'w cyflawni a chael ei ymgorffori fel un o'r amcanion rheoli tir, awgrymwyd ei bod yn hanfodol bod hyn yn cyd-fynd â gwaith hyrwyddo ac addysg y Cod Cefn Gwlad.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi bod pobl eisiau gwybod beth yw'r gyllideb. Mae'r modelu ariannol ar y gweill, mae'r ymgynghoriad yn parhau, felly mae'n anodd atodi cyfraddau talu terfynol. Byddai mwy o wybodaeth yn debygol o gael ei chynnwys am fethodoleg trosglwyddo o BPS i SFS.
- Cafwyd sylw yn croesawu'r gobaith o ymgynghoriad dilys yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Gwnaed y pwynt ei bod yn hawdd tanamcangyfrif pwysigrwydd mynediad i bobl yng Nghymru ac y byddai'n ddefnyddiol cael rhywfaint o ffocws ar negeseuon ynghylch mynediad.
- Mae CNC yn croesawu gwahoddiad i ddarparu gwybodaeth, megis y Cod Cefn Gwlad a'r cod Rheolwyr Tir, i'r cynllun.
- Mae mynediad yn cael ei danamcangyfrif, dylai mynediad i gefn gwlad hefyd gynnwys mynediad i fannau glas gan nad yw'n glir a yw hyn wedi'i gynnwys.

Diolchodd y Cadeirydd i Dave, ac awgrymodd fod Cymru eisoes yn cyflawni, gyda photensial enfawr i Gymru wledig gyflawni yn erbyn amcanion y Bil Amaethyddiaeth.

## 4. Beth yw dyfodol hamdden ar y tir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gofalu amdano?

Mae Dawn Thompson ar secondiad o Forestry England i arwain darn o waith i ddatblygu Strategaeth Hamdden newydd ar gyfer CNC, a rhannodd ei chefndir fel y Pennaeth Hamdden ac Ymgysylltu ar gyfer Gorllewin Lloegr.

Cyflwynodd y strategaeth hamdden a chyfleoedd i gymryd rhan. Gwnaed cais am Strategaeth Hamdden CNC gan Fwrdd CNC. Y cwmpas yw gosod cyfeiriad strategol ar gyfer tir rhydd-ddaliadol a lesddaliadol sy'n cael ei reoli gan CNC i gefnogi gwneud penderfyniadau lleol - gan gynnwys pethau y mae angen eu datblygu a phethau y mae angen rhoi’r gorau iddynt, ac i ddweud y stori am yr hyn mae CNC yn ei wneud a pham.

Mae angen ateb y cwestiwn ynghylch yr argyfyngau natur a hinsawdd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Nododd Dawn y nodau ar gyfer y gwaith a'r meysydd ffocws i gyflawni'r weledigaeth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Corfforaethol newydd CNC a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd angen iddo weithio ar lefel genedlaethol strategol a gweithio ar lefel leol. Mae angen bod yn ymatebol i newid a bod â phroses adolygu flynyddol ac i fesur effaith ei darpariaeth – gan ganolbwyntio'n rhannol ar y manteision lles i gymydeithas, cynaliadwyedd amgylcheddol a chynaliadwyedd ariannol.

Nodwyd strwythur tebygol y strategaeth, gan gynnwys gweledigaeth hyd at 2050, a fframwaith monitro a gwerthuso, a'r meysydd ffocws a fydd yn cael eu harchwilio. Rhannwyd y cynllun ymgysylltu ac ymgynghori a'r llinell amser ar gyfer datblygu'r Strategaeth. Cam 1 oedd mewnwelediad a chasglu tystiolaeth gan weithio gyda rhanddeiliaid mewnol, Cam 2 oedd Dylunio a Datblygu a fydd yn gyfle i Randdeiliaid fod yn rhan o lywio'r Strategaeth, Cam 3 oedd ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft a Cham 4 oedd cyhoeddi ym mis Mehefin 2024.

Crynhodd y gwaith hyd yma i ddatblygu'r strategaeth, a oedd yn cynnwys dod ag asiantaeth allanol i mewn i gefnogi ymgysylltu â'r broses, cynnal ymgysylltiad a gweithdai staff mewnol i gasglu mewnwelediad a thystiolaeth, gweledigaeth ac amcanion - mae hyn wedi cynhyrchu llawer o ddata sy'n cael ei ddadansoddi a bydd yr adroddiad ar hynny yn cael ei gynnwys yng Ngham 2 dylunio a datblygu.

Bydd yr adroddiad o Gam 1 ar gael o fis Gorffennaf ymlaen. Byddai Cam 2 - Awst i Hydref yn cynnwys:

- grwpiau ffocws gyda staff i ddatblygu amcanion ac ymrwymiadau ymhellach
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid
- Gweithdai ar-lein i gyfrannu at ddylunio a datblygu gweledigaeth, meysydd ffocws ac amcanion.

Unwaith y bydd y strategaeth ddrafft wedi'i chyhoeddi, bydd cyfle pellach i ymgysylltu a rhoi adborth.

**Pwyntiau trafod:**

- Cafwyd sylw ei bod yn bwysig deall rôl tir CNC yn benodol, a thir Llywodraeth Cymru yn gyffredinol. Awgrymwyd bod pwysigrwydd polisi mynediad ar y tir hwnnw yn creu'r norm i dirfeddianwyr preifat ddatblygu polisïau a rheoli materion e.e. materion beicio mynydd ac atebolrwydd. Felly, mae angen iddo osod yr esiampl mae eraill yn tueddu i'w dilyn. Gall ddylanwadu ar reoli tir y tu hwnt i CNC.
- Awgrymwyd y gellid cymhwyso polisïau mynediad ar dir CNC yn ddefnyddiol i dir arall sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a Chynghorau gan fod angen polisi mynediad mwy cydlynol a chyson ar draws Llywodraeth Cymru.
- Cafwyd cwestiwn am ba mor wahanol fydd y strategaeth newydd o'r hyn mae CNC yn ei gyflawni nawr, neu'r hyn y dylai fod yn ei gyflawni nawr?

- Nododd Dawn nad oes gan CNC weledigaeth glir ar hyn o bryd ar gyfer hamdden a chyfeiriad i'r dyfodol, felly bydd hynny'n newid. Nid yw hi'n glir ar hyn o bryd pa mor wahanol fydd pethau - ond mae angen gosod cyfeiriad cryf da y gall CNC weithio ohono ac y gall timau ar lawr gwlad ei ddefnyddio i gefnogi eu penderfyniadau.
- Cafwyd cwestiwn ynghylch a fydd y mynediad lleiaf cyfyngol yn cael ei gynnwys yn y strategaeth, a fydd yn cynnwys adolygiad o adnoddau gan gynnwys y rhwydwaith hawliau tramwy, a fydd y mater mynediad at ddŵr yn cael sylw ar wahân ar dir a reolir gan CNC ac a fydd ymgynghoriad allanol yn mynd i Fforymau Mynediad Lleol.
- Cadarnhaodd Dawn fod cyfraniad Fforymau Mynediad Lleol eisoes yn cael ei ystyried ac yn debygol o fod yn rhan o ymgysylltiad Cam 2, yn ogystal â bod yn rhan o ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft yng Ngham 3. Mae Dawn yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ar fynediad at ddŵr a diwygio mynediad yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld Diwygio Mynediad o fewn y strategaeth ond mae lefel y manylion eto i'w benderfynu, byddai'n debygol o gael ei chwmpasu o amgylch treialon yn y lle cyntaf. Bydd y cwestiwn mynediad lleiaf cyfyngol yn rhan o'r cam dylunio a datblygu nesaf i'w archwilio.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar a all CNC ehangu ar y meddwl am grwpiau defnyddwyr cerbydau oddi ar y ffordd i ddefnyddio tir a reolir gan CNC yn hytrach na thir mwy bregus, nododd Dawn y bydd y Strategaeth yn cael ei harwain gan amcanion y Cynllun Corfforaethol, ac y bydd yn edrych ar weithgarwch cerbydau oddi ar y ffordd, posibiliadau o ran dynodi tir yn barthau ar gyfer gweithgarwch, ond byddai hynny'n cael ei ystyried.
- Cyfeiriwyd at y dyletswyddau statudol yn erthyglau 2013 ar gyfer CNC i ddarparu mynediad a hamdden, a nodwyd y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth a fyddai'n cynnwys mynediad a dyletswyddau statudol, a byddai angen ystyried y dolenni i ddiwygio mynediad hefyd.
- Gan fod tystiolaeth yn dangos bod pobl yn gofalu am bethau mae ganddynt ymdeimlad o berchnogaeth drostynt a chyfran ynddynt, awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol gweld stiwardiaeth yn cael ei hymgorffori yn y strategaeth.

## 5. Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Fforwm

Roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru a'i ddiwygio wedi'i ddosbarthu ac roedd y cyfarfod yn cymeradwyo'r fersiwn newydd a fyddai'n cael ei hadolygu eto yn 2026.

## 6. Cyfraniadau ysgrifenedig

Aeth y cyfarfod drwy'r cyfraniadau ysgrifenedig a ddosbarthwyd yn flaenorol a chafodd cyfranwyr gyfle i siarad am yr eitemau a gyflwynwyd a gwahoddwyd cwestiynau.

Rhannodd Anna Jones, Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Amrywiaeth a Llywodraethu ar draws holl Dirweddau Dynodedig Cymru, wybodaeth am ei rôl a gwahoddodd aelodau i gysylltu â hi. Rhannodd gyda'r aelodau y gwaith mae Tirweddau Cymru yn ei wneud, gan gynnwys rhedeg adnodd addysgol ledled Cymru.

Nododd Helen Donnan, BHS, fod y prosiect 'All Saddles Welcome' yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn rhedeg ers 3 blynedd, gan weithio gyda Cycling UK i hyrwyddo llwybr marchogaeth a beicio pellter hir o Fro Morgannwg i Ferthyr.

Nododd Gwenda Owen, Cycling UK, fod Ffordd Fawreddog Morgannwg yn enghraifft dda iawn o gydweithio rhwng grwpiau defnyddwyr a nifer o awdurdodau lleol a'r Ymddiriedolaeth Natur. Mae'r ddogfen 'Trails for Wales' wedi cael ei lansio yn sgil rhwystredigaeth ynghylch cynnydd mewn Diwygio Mynediad, gan atgoffa Llywodraeth Cymru am y rhesymau pam mae angen diwygio. Y dyddiad lansio ar gyfer Traws Eryri – gan weithio gyda CNC yn y Gogledd Cymru - yw 23 Awst yng Nghonwy.

Anogodd Rebecca Ramblers Cymru aelodau i edrych ar wefan Llwybrau i Lesiant, gan weithio gyda chymunedau i ddatblygu llwybrau.

Rhannodd Paul Renfro y Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru, mewn partneriaeth ag aelodau eraill Fforwm Cymdeithas Twristiaeth Anturiaeth Cymru (WATO), a thynnodd sylw at rai canfyddiadau allweddol. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein a bydd crynodeb anweithredol yn cael ei rannu.

## 7. Diweddariad ar y Rhaglen Diwygio Mynediad

Roedd aelodau'r fforwm wedi paratoi cwestiynau i'r Gweinidog ond, gan nad oedd y Gweinidog yn gallu bod yn bresennol, atebwyd y rhain gan Simon Pickering, Pennaeth Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad.

**Cwestiwn ac Ateb**

**Ruth Rourke, IPROW:** Mae adnoddau mewn awdurdodau lleol ar gyfer mynediad i gefn gwlad yn brin iawn. Ar sawl achlysur, mae swyddogion wedi cyflwyno argymhellion ar gyfer newidiadau syml a allai helpu i leihau'r baich i dirfeddianwyr ac awdurdodau lleol, megis dileu'r angen i hysbysebu gorchmynion mewn papurau lleol. A allai'r Gweinidog gynorthwyo i sicrhau bod y diwygiadau hyn y mae mawr eu hangen yn cael eu gwneud yn y dyfodol agos?

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio dechrau cyfnod ymgysylltu gydag awdurdodau lleol yn ddiweddarach eleni (Medi/Hydref) o ran diwygio mynediad yn y maes hwnnw.

**Gwenda Owen, Cycling UK:** A all y Gweinidog ddarparu amserlenni ar gyfer cynnydd o ran diwygio mynediad? O ystyried ymrwymiad datganedig Llywodraeth Cymru i ddiwygio yn 2019 a'r cyfraniad sylweddol a wnaed gan ystod eang o randdeiliaid i'r broses ARAG, byddai'n drueni i hyn gael ei golli o ystyried pwysigrwydd diwygio i iechyd a lles pobl Cymru a'r budd i dwristiaeth gynaliadwy. Nodwyd siom nad oedd y Gweinidog yn gallu bod yn bresennol gan fod yr aelodau wedi teithio'n bell.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r ymdrech sydd wedi'i gwneud yn y maes hwn gan randdeiliaid ac mae'n parhau i fod yn rhywbeth mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w ddatblygu. Mae rhai cyfyngiadau, o ran cyllideb ac adnoddau a mynediad at slot deddfwriaethol i fwrw ymlaen â diwygiadau, y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio eu sicrhau, ond nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn blaenoriaethu meysydd lle gellir gwneud cynnydd. O ran treialu dulliau ARAG ar dir a reolir gan CNC, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda CNC. Cychwyn y broses o ystyried beth allai treial ei brofi, gan nodi bod angen deall pa gwestiynau oedd yn dal i fod yn adroddiad ARAG er mwyn i dreial fod yn fuddiol, i wneud y gorau o'r manteision a'r allbynnau o dreial ac i ddeall adnoddau a goblygiadau eraill – mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â CNC ac yn gwneud gwaith pellach yn fewnol a hefyd yn bwriadu ymgysylltu â thirfeddianwyr eraill. Nid oedd Simon mewn sefyllfa i ddarparu amserlenni, gan nodi bod y rhai ar gyfer newidiadau deddfwriaeth yn ddibynnol ar fod â slot deddfwriaethol.

**Rebecca Brough, Ramblers Cymru:** A yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir yn ei chefnogaeth i fynediad i'r awyr agored - boed hynny ar gyfer teithiau hamdden neu 'bwrpasol' - gan gynnwys helpu awdurdodau i gyflawni eu rhwymedigaethau i gynnal a hyrwyddo mynediad? Pryder am anghysondeb enfawr rhwng sut mae mynediad cerdded a beicio yn cael ei drin a diffyg integreiddio.

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fwrw ymlaen â'r cyllid Grant Gwella Mynediad i awdurdodau lleol - ar ôl llwyddo i droi'r rhaglen flynyddol yn rhaglen 3 blynedd ymroddedig, a nododd Simon fod hyn yn galluogi awdurdodau i strwythuro rhai o'u prosiectau i raddau mwy helaeth. Mae'n parhau i siarad â chydweithwyr Teithio Llesol i geisio gwella'r cysylltiadau.

**Helen Donnan, BHS:** Hoffai mwy o farchogion ddefnyddio eu ceffylau i wneud teithiau llesol byr i bostio llythyr, mynd i'r siop leol, ymweld â ffrindiau ond mae'r ffaith bod pobl ar geffylau wedi'u gwahardd o lawer o lwybrau teithio llesol yn amharu ar y pethau hyn, ac mae'r ffaith eu bod wedi'u gwahardd yn golygu bod pobl yn gorfod marchogaeth ar yr union ffyrdd sy'n cael eu hystyried yn beryglus i feicwyr a cherddwyr eu defnyddio'n ddiogel – beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i gywiro hyn?

**Ymateb:** Nid yw'r Ddeddf Teithio Llesol yn cynnwys marchogaeth ceffylau a gyrru car a cheffyl yn y diffiniad o Deithio Llesol, gan fod dadansoddiad y Llywodraeth hon yn nodi nad yw'r ddau weithgarwch yn cael eu defnyddio'n gyffredin ar gyfer teithiau cyfleustodau. Mae enghreifftiau da lle mae llwybrau amlbwrpas yn cael eu mwynhau gan bob defnyddiwr, lle mae llwybrau teithio llesol yn cysylltu â llwybrau ceffylau ac mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ystyried yr ateb gorau ar gyfer amgylchiadau lleol. Nododd fod Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru yn tynnu sylw at fregusrwydd ceffylau a'u marchogion. Gwahoddodd Simon Helen i anfon manylion yr enghraifft a rannwyd o farchogion yn gorfod mynd ochr yn ochr â ffordd ddeuol yn hytrach na defnyddio llwybr teithio llesol.

**Phil Stone, Canŵio Cymru** – adroddiad gan is-grŵp Mynediad i Ddŵr y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, nid yw'r adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi'r holl atebion, ond mae'n rhoi llwyfan gwych i'r sefydliadau siarad gyda'i gilydd am y ffyrdd y gellir cynyddu mynediad i

ddŵr mewndirol. Gofynnodd a fyddai'r Gweinidog yn ailedrych ar hynny ac yn ailddechrau'r sgwrs.

**Ymateb:** Nododd Simon mai prif ymrwymiad y Llywodraeth ynghylch y defnydd hamdden o ddŵr yw ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu o ran defnyddio dŵr mewndirol ar gyfer hamdden. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, comisiynwyd adroddiad arolwg enghreifftiol i gael gwell dealltwriaeth o weithgareddau a'r defnydd o ddŵr mewndirol – cyhoeddwyd adroddiad ar hyn ym mis Mai 2023 a bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu'r ymrwymiad. Fel rhan o hynny, bydd treial ar 7 safle peilot o amgylch y broses ddynodi yn y flwyddyn nesaf. Bydd dysgu o hynny yn ystyried unrhyw beth sy'n datblygu o ran mynediad. Mae tîm Simon yn siarad yn rheolaidd â'r Gangen Ddŵr ac yn sôn am bwysigrwydd mynediad ac yn eu hatgoffa am adroddiad yr Is-Grŵp fel ei fod yn cael ei gynnwys fel rhan o'r ystyriaethau. Yn ôl Simon, pan ofynnwyd am y darn hwnnw o waith yn y lle cyntaf, roedd i fod i ganolbwyntio ar sefydlu gwell perthnasoedd ac roedd yn dda gweld y cydweithio; cafodd ei fframio hefyd fel ffordd o wneud i'r trefniadau presennol weithio'n well, felly byddai croeso i unrhyw beth pellach a all ddod gan randdeiliaid ynglŷn â chryfhau'r trefniadau. Byddai Simon yn rhoi adborth i'r pwynt bod llawer o hamdden dŵr yn seiliedig ar daith (5-15 cilometr mewn diwrnod), felly efallai na fydd treialon sy'n seiliedig ar bwyntiau yn ystyried yr hyn sydd ei angen yn ehangach.

**Ian Mabberley, Fforymau Mynediad Lleol Cymru:** (cwestiwn a gyflwynwyd ymlaen llaw gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol): Pryd mae'r diweddariadau i reoliadau Fforymau Mynediad Lleol yn debygol o gael eu gweithredu?

**Ymateb:** Mae Llywodraeth Cymru yn drafftio rheoliadau ar hyn o bryd ac yn anelu at eu cwblhau yn ystod yr hydref a gweithio gyda rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd rheoliadau drafft yn barod i'w hystyried yn ystod y misoedd nesaf.

**Eben Muse, BMC:** Mae'r Gweinidog wedi dweud yn y gorffennol mai'r bwriad ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth yw bod taliadau'n cael eu gwneud ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd, ond nid ydym eto wedi gweld eglurhad ar sut y byddai hyn yn gweithio yn ymarferol. A all y Gweinidog ymhelaethu ar y mecanweithiau ymarferol a ddefnyddir i fonitro hyn a'i roi ar waith fel bod mynediad yn cael ei wella, yn hytrach na dim ond ei gynnal?

**Ymateb:** Nodwyd y diweddariad a ddarparwyd gan Dave Ashford a'r camau nesaf yn y broses ac y byddai datganiad am gynnydd gan y Gweinidog.

**Peter Rutherford, Cymru NPA**: Nodwyd bod ymdeimlad dwfn o rwystredigaeth ymhlith swyddogion mynediad proffesiynol a chyrff anllywodraethol ar ôl ARAG gan nad oedd yn ymddangos bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud, er gwaethaf ymdrech ac ymgynghoriad. Mae IPROW a WROWMWG wedi cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau technegol i ddeddfwriaeth ac mae atebion ymarferol ar gyfer mynediad at ddŵr.

**Ymateb:** Nododd Simon y rhwystredigaeth sydd wedi'i hadleisio gan eraill, a bydd yn briffio'r Gweinidog ac yn rhoi adborth ar y safbwyntiau a gyflwynwyd.

**Beverley Penney, OSS:** Gofynnodd sut roedd y cyfarfod yn teimlo am wahodd y Gweinidog i gyfarfod gan ei bod yn ymddangos bod hynny'n rhywbeth mae aelodau'n teimlo'n gryf iawn amdano.

**Cadeirydd:** Nododd pwynt Beverley a byddai'n cyfeirio ato yn eitem 8.

**Mark Weston, BHS:** Gofynnodd a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth am ba ganran o'r defnydd o lwybrau teithio llesol sydd at ddibenion hamdden a'r ganran ar gyfer teithiau cyfleustodau.

**Ymateb:** Cynigiodd Simon ystyried a oedd gwybodaeth am hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Simon am fynychu ac ateb yr holl gwestiynau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ystyried sut yr hoffent i'r cyfarfod nesaf gael ei drefnu, o ystyried costau dod i gyfarfod. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar 7 Tachwedd wyneb yn wyneb (hybrid) yn hytrach nag ar-lein fel y cynlluniwyd gan fod Llywodraeth Cymru wedi cynghori y byddai'r Gweinidog yn bresennol a nododd yr aelodau y byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i rannu barn â'r Gweinidog yn uniongyrchol.

Caeodd y Cadeirydd y cyfarfod a diolchodd i'r holl gyflwynwyr a'r aelodau a ymunodd, wyneb yn wyneb ac ar-lein, am gymryd rhan ac am y cyfoeth o brofiad mae pawb yn ei gyfrannu at drafodaethau.